Y GARDEN GOCH I YFED A GYRRU

PEIDIWCH Â CHAEL EICH COSBI

Nid oes dim gwahaniaeth faint o alcohol rydych wedi ei yfed - os ydych ychydig dros y terfyn yn unig neu ymhell dros y terfyn, yn llygaid y gyfraith rydych yn dal i fod yn euog o yfed a gyrru.

Os byddwch yn gyrru, neu'n ceisio gyrru, tra ydych dros y terfyn:

- **Byddwch yn colli eich trwydded - cewch eich gwahardd am 12 mis o leiaf**
- **Mae posibilrwydd y bydd eich dirwy yn gymaint â £5,000**
- **Bydd gennych hanes o droseddu - a bydd hynny gennych am o leiaf 20 mlynedd**
- **Bydd eich trosedd yn aros ar eich trwydded am 11 o flynyddoedd**

CAM GWAG YW YFED A GYRRU

Mae cael hanes o droseddu yn effeithio'n andwyol ar eich bywyd, gan amharu ar:

- **Eich perthynas ag anwyliaid**
- **Eich gobeithion gyrfaol**
- **Eich gallu i deithio dramor - e.e. i'r Unol Daleithiau**
- **Taliadau yswiriant, sy'n gallu cynyddu deirgwaith**
- **Eich gallu i logi car**
- **Eich enw da**

PEIDIWCH Â THORRI'R RHEOLAU YFED A GYRRU

Byddwch yn treulio o leiaf 14 o flynyddoedd dan glo ac yn cael eich gwahardd rhag gyrru am o leiaf 2 flynedd os byddwch yn lladd rhywun drwy yrru'n beryglus dan ddylanwad diod.

Hyd yn oed os ydych o dan y terfyn, gallech gael eich cyhuddo o yrru tra bo diod yn amharu arnoch. Rydych yn fwy tebygol o gael eich dal nag erioed o'r blaen. Mae'r heddlu'n rhoi prawf anadl i bob gyrrwr:

- **sydd wedi ei stopio am unrhyw drosedd traffig symudol (e.e. defnyddio ffôn symudol, peidio â defnyddio gwregys diogelwch, bod gan y cerbyd olau brecio diffygiol)**
- **os ydyn nhw'n amau ei fod wedi bod yn yfed**
- **sydd wedi bod mewn damwain**

MAE'R CANLYNIADAU'N AMLWG

Mae gyrwyr sydd dros y terfyn cyfreithiol yn gysylltiedig ag 1 ymhob 7 marwolaeth ar ffyrdd Cymru. Mae llawer mwy o berygl o fod mewn damwain ar ôl yfed alcohol.

Y Bore Canlynol
Gall rhywun fod dros y terfyn yn rhwydd y bore canlynol ar ôl bod yn yfed y noson flaenorol:

- **Gall gymryd hyd at 10 awr i'r alcohol fynd yn llwyr o'r corff ar ôl yfed potelaid o win.**
- **Gall gymryd hyd at 13 awr i'r alcohol fynd yn llwyr o'r corff ar ôl yfed pedwar peint o lager neu gwrw cryf.**

Os caiff gyrrwr ei ddal dros y terfyn y bore canlynol, bydd yn wynebu'r un canlyniadau ag y byddai petai wedi ei ddal y noson flaenorol.

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

UNED DIOGELWCH FFYRDD

SCARLETS

Taclo yfed a gyrru gyda'n gily